# Dogfen Gwahoddiad i Dendro

## Fframwaith Chwaraeon Cymru: Ymgynghorwyr ar gyfer Dirnadaeth, Monitro a Gwerthuso

13eg Chwefror 2026

# Gweithdrefn Agored Gwahoddiad i Dendro ar gyfer darparu Fframwaith Ymgynghori (Dirnadaeth, Monitro a Gwerthuso)

## Cynnwys


1. Cefndir ..... 3
2. Trosolwg o'r Gofyniad ..... 4
3. Lotiau ..... 5
4. Cyflwyno Ymatebion / Amserlen ..... 6
5. Gofynion Gweithdrefnol ac Ymateb ..... 7
6. Derbyn Tendrau ..... 7
7. Addasu'r Caffael ..... 8
8. Amodau'r Tendr ..... 8
9. Treuliau a Cholledion yn y Tendr ..... 9
10. Prisiau ..... 9
11. Telerau Talu ..... 9
12. Cyfrinachedd a Thryloywder ..... 10
13. Diogelwch ..... 10
14. Yr Iaith Gymraeg ..... 11
15. Is-Gontractwyr a Chonsortiwm ..... 11
16. Gwrthdaro Buddiannau ..... 12
17. Manyleb ..... 13

Cyflwyniad ..... 13
Y Gwasanaethau ..... 15
Safonau ..... 16
Cyfrifoldebau Chwaraeon Cymru ..... 16
Cadw Cofnodion ac Adrodd ..... 16
Llywodraethu ..... 16
Ansawdd a Rheoli Perfformiad ..... 17

Cynllunio Mynediad a Gadael ....17
Hyd y Contract ....17
18. Y Broses Asesu ....18
Trosolwg o Broses Asesu'r Gwahoddiad i Dendro ....18
Holiadur Cymhwyso ....18
Asesiad Ansawdd a Masnachol ....19
Asesiad Ansawdd ....19
Asesiad Masnachol ....20
Meini Prawf Dyfarnu ....21
Dyfarnu ....23
19. Cyfarwyddyd Pellach ....24
20. Diffyg Cydymffurfio ....24
21. Sefyllfa ac Adnoddau Ariannol ....25
22. Rhestr Wirio o Ddogfennau Ymateb i'w Dychwelyd ....25

# 1. Cefndir

1.1 Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnach, sef Chwaraeon Cymru) drwy Siarter Frenhinol dyddiedig 4 Chwefror 1972. Mae'n cael ei ariannu gan gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru ac o incwm sy'n cael ei gynhyrchu o'i weithgareddau ei hun. Dyma brif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar faterion chwaraeon ac mae'n gyfrifol am ddosbarthu arian Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol i chwaraeon yng Nghymru.

1.2 Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru ar lefelau cymunedol ac elitaidd. Mae hefyd yn gyfrifol am ddosbarthu symiau sylweddol o gyllid grant ar draws portffolio eang o weithgarwch chwaraeon yng Nghymru.

1.3 Mae Chwaraeon Cymru yn un o'r cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* Llywodraeth Cymru. Yn unol â hynny, mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu ei nodau llesiant ei hun. Mae Archwilio Cymru yn gyfrifol am archwilio'r sefydliadau hyn i asesu i ba raddau y mae'r nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio y mae'r Ddeddf yn eu hyrwyddo wedi cael eu cyflawni.

1.4 Ein nod ni yw nid yn unig gwella lefel y cyfranogiad chwaraeon ar lawr gwlad ond hefyd rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ein hathletwyr uchelgeisiol ni i gystadlu'n llwyddiannus ar lwyfan y byd.

1.5 Ar hyn o bryd mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dros bedwar lleoliad yng Nghymru; mae'r safleoedd yn cynnwys ein dwy Ganolfan Genedlaethol, yng Ngerddi Sophia, Caerdydd a Phlas Menai, Caernarfon (mewn partneriaeth â

Parkwood a Legacy Leisure); a swyddfeydd lloeren ar Lannau Dyfrdwy ac yn Llanelli.

1.6 Am ragor o wybodaeth a chyd-destun, ewch i wefan Chwaraeon Cymru yn https://www.chwaraeon.cymru/.

# 2. Trosolwg o'r Gofyniad

Mae'r broses gaffael hon yn cael ei chynnal yn unol â Deddf Caffael 2023 gan ddefnyddio'r weithdrefn Agored. Mae'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro hon yn disgrifio sut cynhelir y caffael, gan fanylu ar yr amserlen gaffael gysylltiedig, y broses asesu (gan gynnwys y meini prawf dyfarnu) ac yn cyfarwyddo tendrwyr ynghylch sut i ymateb i'r cyfle.

2.1 Mae Chwaraeon Cymru eisiau caffael a gweithredu fframwaith o ymgynghorwyr ymchwil galluog a phrofiadol i ddarparu amrywiaeth o arbenigedd ymchwil, dirnadaeth a gwerthuso.

2.2 Bwriad Chwaraeon Cymru yw caffael fframwaith aml-gyflenwr i ddarparu ymgynghoriaeth dirnadaeth, monitro a gwerthuso ad hoc yn ôl yr angen.

2.3 Bydd y cyflenwyr llwyddiannus a roddir ar y fframwaith yn gweithredu fel estyniad i Chwaraeon Cymru, gan ddarparu cefnogaeth, capasiti, gwydnwch ac arbenigedd ychwanegol pan fo angen.

2.4 Mae Chwaraeon Cymru yn chwilio am arbenigedd amrywiol o wahanol sectorau i wella ei allu ar y cyd i gynhyrchu a deall data, yn ogystal â monitro a gwerthuso rhaglenni gwaith yn fewnol ac ar draws y sector.

2.5 Y bwriad yw dyfarnu lle ar y fframwaith i hyd at 12 cyflenwr ar draws dau Lot gwahanol.

2.6 Disgrifir y Lotiau yn fanylach isod (Rhan 3), ond fel trosolwg, teitl pob Lot yw:

- **Lot 1:** Ymchwil Meintiol (hyd at 3 chyflenwr).
- **Lot** 2: Ymchwil Ansoddol (hyd at 9 cyflenwr).

2.7 Bydd pob achos o ddarparu gwasanaeth sy'n ofynnol gan Chwaraeon Cymru yn cael cais yn ôl y gofyn drwy'r fframwaith fel pecyn gwaith unigol, yn unol â phroses lywodraethu'r fframwaith fel yr amlinellir isod yn Rhan 14.

2.8 Fel arwydd o ofyniad Chwaraeon Cymru, gan ddangos ehangder ac ansawdd disgwyliedig yr elfennau i'w cyflawni a geisir drwy'r fframwaith, rhennir enghreifftiau o gynnwys tebyg perthnasol isod:

- **Prosiect Cefnogi Partneriaid 11/25 – 02/26 - £9,500:**
    - Helpodd y prosiect hwn Chwaraeon Cymru i ddeall pa effaith y mae'r gefnogaeth ehangach a ddarperir i bartneriaid sy'n cael eu cyllido wedi'i chael, a'r effaith y mae wedi'i chael ar y sector ehangach.

- **Fframwaith Sylfeini Cymru – 1/4/25 – 31/3/26 - £20,000**
    - Nod y prosiect hwn oedd galluogi i Chwaraeon Cymru ddeall effaith Fframwaith Sylfeini Cymru ar sefydliadau a chlybiau yn well.

2.9 Hyd y cytundeb fframwaith arfaethedig yw 24 mis i ddechrau, gyda'r opsiwn i ymestyn am hyd at 24 mis pellach (yn ôl disgresiwn llwyr Chwaraeon Cymru).

2.10 Yr amcangyfrif o werth y cytundeb fframwaith yw hyd at uchafswm o £100,000 (heb gynnwys TAW) y flwyddyn, am gyfanswm gwerth posibl o hyd at uchafswm o £400,000 dros y tymor llawn arfaethedig o 24 mis + 24 mis.

2.11 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nodwch nad yw Chwaraeon Cymru yn gwneud unrhyw ymrwymiad i gyfanswm gwerth y fframwaith, nac i werth na swm y gwaith i'w osod yn ystod tymor y cytundeb arfaethedig.

2.12 Darperir y Fanyleb lawn isod yn Rhan 17.

# 3. Lotiau

3.1 Bydd y cytundeb fframwaith yn cael ei rannu'n Lotiau fel y nodir isod. Mae gwybodaeth fanylach am bob lot wedi'i chynnwys yn Rhan 19 (Manyleb).

| Rhif / Enw'r Lot | Disgrifiad | Nifer y Cyflenwyr sy'n cael eu Ffafrio ar gyfer pob Lot |
|---|---|---|
| Lot 1: Ymchwil Meintiol | Rydym yn disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus allu cynnal ymchwil meintiol cadarn fel dylunio, dadansoddi data a gallu cyflwyno canfyddiadau'n glir ac yn gryno i gynulleidfaoedd annhechnegol. Edrychwch ar 17.2 am fwy o fanylion. | 3 (hyd at) |
| Lot 2: Ymchwil Ansoddol | Rydym yn disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus allu cynnal dylunio ymchwil ansoddol cadarn, a chasglu a dadansoddi data gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau traddodiadol a chreadigol. Edrychwch ar 17.2 am fwy o fanylion. | 9 (hyd at) |

3.2 Nodir nifer y cyflenwyr y mae Chwaraeon Cymru yn bwriadu eu penodi ar gyfer pob Lot yn y tabl uchod. Mae'r niferoedd a nodir yn cynrychioli'r nifer sy'n cael ei ffafrio, ond gall nifer gwirioneddol y cyflenwyr a benodir amrywio yn dibynnu ar ganlyniad y caffael a gallai fod yn fwy neu'n llai nag a nodir.

3.3 Caniateir i dendrwyr gynnig am un Lot neu'r ddau, yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir yn Rhan 18.

3.4 Rhaid i dendrwyr nodi pa Lot(iau) maent yn cynnig amdanynt yn eu cyflwyniad, fel rhan o'u hymateb i'r Holiadur Cymhwyso. Gellir ystyried bod unrhyw ymateb i'r tendr nad yw'n cydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwn yn ymateb nad yw'n cydymffurfio ac felly caiff ei eithrio o'r caffael, yn ôl disgresiwn Chwaraeon Cymru.

# 4. Cyflwyno Ymatebion / Amserlen

4.1 Nodir yr amserlen gaffael arfaethedig isod.

Sylwch mai dangosol yn unig yw'r dyddiadau a ddarperir, a bod Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl i'w diwygio ar unrhyw adeg yn ystod y broses heb atebolrwydd. Bydd pob tendrwr yn cael gwybod am unrhyw newid(iadau) i'r amserlen.

| Gweithgaredd | Dyddiad | Cyfrifol |
|---|---|---|
| Cyhoeddi Hysbysiad y Tendr | $13^{eg}$ Chwefror 2026 | Chwaraeon Cymru |
| Dyddiad Cau ar gyfer Cyflwyno Cwestiynau Eglurhad | $4^{ydd}$ Mawrth 2026 | Tendrwr |
| Dyddiad Cau ar gyfer Cyflwyno Ymatebion | $13^{eg}$ Mawrth 2026 | Tendrwr |
| Gwerthuso (gan gynnwys pob cymeradwyaeth fewnol) | $16^{eg}$ Mawrth i $3^{ydd}$ Ebrill 2026 | Chwaraeon Cymru |
| Cyhoeddi'r Crynodebau Asesu | $16^{eg}$ Ebrill 2026 | Chwaraeon Cymru |
| Cyhoeddi Hysbysiad Dyfarnu Contract | $17^{eg}$ Ebrill 2026 | Chwaraeon Cymru |
| Cyfnod Segur | $20^{ain}$ i $29^{ain}$ Ebrill 2026 | / |
| Cyhoeddi Hysbysiad Manylion y Contract | $30^{ain}$ Ebrill 2026 | Chwaraeon Cymru |
| Dyfarnu'r Cytundeb Fframwaith | $1^{af}$ Mai 2026 | Chwaraeon Cymru |
| Y Cytundeb Fframwaith yn Dechrau | $4^{ydd}$ Mai 2026 | Chwaraeon Cymru a'r Tendrwr |

4.2 Rhaid cyflwyno cyflwyniadau'r tendr ar ffurf electronig i'r cyfleuster Blwch Post ar gwerthwchigymru.gov.uk erbyn hanner dydd ar $13^{eg}$ Mawrth 2026. Efallai na fydd yr ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.

4.3 Mae canllaw defnyddiwr Blwch Post Cyflenwyr ar gael o dan yr adran 'Help a Chefnogaeth' ar wefan GwerthwchiGymru.

4.4 Os bydd tendrwyr yn dod ar draws unrhyw broblemau wrth gyflwyno cwestiynau eglurhad, defnyddiwch swyddogaeth cefnogi GwerthwchiGymru.

4.5 Dylid cyflwyno cwestiynau eglurhad (ymholiadau) mewn perthynas â'r tendr drwy swyddogaeth cwestiynau ac atebion GwerthwchiGymru. Ni ellir ymateb i gwestiynau eglurhad a dderbynnir y tu allan i GwerthwchiGymru (e.e. ar e-bost).

4.6 Gellir derbyn ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd ymatebion a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg. Cynhelir yr holl ohebiaeth / cyfathrebu dilynol yn unol ag iaith yr ymateb a gyflwynwyd.

# 5. Gofynion Gweithdrefnol ac Ymateb

5.1 Mae'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro hon, ynghyd ag unrhyw ddogfennau cysylltiedig eraill y tendr a ddarperir i dendrwyr mewn cysylltiad â'r caffael hwn, yn cynnwys gofynion gweithdrefnol ac ymateb y mae'n rhaid i dendrwyr eu dilyn.

5.2 Gall methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad gweithdrefnol neu ymateb arwain at eithrio'r tendrwr o'r caffael a gwneud ei ymateb yn annilys, yn ôl disgresiwn llwyr Chwaraeon Cymru.

# 6. Derbyn Tendrau

6.1 Bydd Chwaraeon Cymru yn adolygu pob tendr a dderbynnir drwy flwch post GwerthwchiGymru. Sylwch, fodd bynnag, na fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.

6.2 Ac eithrio gwall amlwg, neu fel y cytunir yn benodol fel arall gan Chwaraeon Cymru a'r tendrwr, ystyrir bod cynnwys ymatebion tendr a gyflwynir mewn perthynas â'r caffael hwn yn rhwymol i'r tendrwr ac yn agored i'w dderbyn gan Chwaraeon Cymru.

6.3 Cyn cyflwyno eu hymateb, mae tendrwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu staff, a staff unrhyw is-gontractwyr, yn gwbl ymwybodol o'r holl ofynion technegol, masnachol a chyfreithiol sy'n ymwneud â'r caffael hwn.

6.4 Dylai tendr fod yn ddilys i'w dderbyn am gyfnod o 120 diwrnod o leiaf o ddyddiad ei gyflwyno.

6.5 Nid yw Chwaraeon Cymru yn ymrwymo i dderbyn y tendr pris isaf nac unrhyw gyflwyniad tendr a dderbynnir mewn ymateb i'r caffael hwn. Ni ystyrir bod unrhyw gyflwyniad wedi'i dderbyn oni bai fod derbyn o’r fath wedi'i hysbysu i'r tendrwr yn ysgrifenedig.

6.6 Ni fydd unrhyw ran o ymateb y tendr a gyflwynwyd yn cael ei dychwelyd i'r tendrwr.

# 7. Addasu'r Caffael

7.1 Ni ddylid ystyried y ddogfen Gwahoddiad i Dendro hon, unrhyw hysbysiad tendr cyfatebol nac unrhyw wybodaeth ychwanegol a roddir fel rhan o'r caffael hwn fel ymrwymiad nac fel cynrychiolaeth ar ran Chwaraeon Cymru (neu unrhyw berson arall) i ymrwymo i drefniant cytundebol.

7.2 Mae Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl i derfynu neu ganslo fel arall y caffael hwn ar unrhyw adeg yn ystod y broses, a / neu i beidio â dyfarnu unrhyw gontract o ganlyniad i'r caffael hwn. O ran lotiau, nid yw unrhyw benderfyniad gan Chwaraeon Cymru i beidio â dyfarnu lot yn atal Chwaraeon Cymru rhag dyfarnu'r lotiau sy'n weddill.

7.3 O ran terfynu neu ganslo'r caffael fel arall a / neu beidio â dyfarnu unrhyw gontract o ganlyniad i'r caffael hwn; ni fydd Chwaraeon Cymru yn atebol am unrhyw gostau a achosir gan y tendrwr o ganlyniad i'r gweithredu hwn.

7.4 Mae Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl ar unrhyw adeg i wneud y canlynol:

- Cyhoeddi diwygiadau, addasiadau neu wybodaeth ychwanegol i unrhyw ddogfennaeth sy'n rhan o'r caffael hwn, gan gynnwys y fanyleb.
- Gofyn i dendrwr egluro unrhyw ran o'i ymateb a'i gyflwyniad tendr yn ysgrifenedig a / neu ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Gall methu ar ran tendrwr i ymateb yn unol â'r cyfarwyddiadau arwain at wneud ei gyflwyniad tendr yn annilys.
- Newid yr amserlen gaffael ar gyfer y caffael hwn.
- Ailgynnal unrhyw ran o'r caffael ar yr un sail neu sail amgen.
- Diwygio'r caffael fel arall fel y disgrifir yma.

7.5 Mae'r Fanyleb (Rhan 17) yn nodi gofynion Chwaraeon Cymru yn llawn. Mae'n bosibl, yn ystod oes unrhyw gytundeb a weithredir, y bydd newidiadau i'r fanyleb, y gwasanaeth neu ofynion eraill yn codi.

7.6 Bydd newidiadau i'r Fanyleb yn cael eu gweithredu drwy gyhoeddi diwygiadau ysgrifenedig i bawb yr effeithir arnynt gan y newidiadau. Chwaraeon Cymru sydd â'r hawl unigryw i weithredu newidiadau yn y modd hwn.

# 8. Amodau'r Tendr

8.1 Drwy gyflwyno tendr, rydych yn cydnabod ac yn cytuno'n llawn i'r amodau canlynol:

8.2 Mae cynnwys a gofynion y dogfennau tendro wedi cael eu darllen, eu deall a, lle bo angen, cydymffurfiwyd â hwy.

8.3 Mae hwn yn dendr dilys, ac nid yw'r prisiau a / neu'r symiau a nodir yma wedi'u haddasu ac ni fu unrhyw ddylanwad annheg arnynt oherwydd unrhyw drefniadau neu gytundebau gydag unrhyw drydydd parti.

8.4 Nid ydych, ac ni fyddwch, cyn dyfarnu unrhyw gontract, yn cyfathrebu ag eraill ac eithrio'r sefydliad tendro ynghylch y swm a dendrwyd neu fanylion penodol y swm, ac eithrio pan fo angen datgelu'r wybodaeth hon i gael gwybodaeth i gefnogi eich cais.

8.5 Nid ydych ac ni fyddwch yn gwneud unrhyw drefniant neu gytundeb a allai arwain at eraill yn peidio â chyflwyno tendr neu ddylanwadu ar y swm a gyflwynir gan eraill.

8.6 Nid ydych ac ni fyddwch yn cynnig unrhyw gymhelliant, yn ariannol neu fel arall, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unrhyw berson neu drydydd parti mewn unrhyw ffordd i ddylanwadu ar unrhyw dendr a gyflwynir neu ran ohono.

8.7 Rydych drwy hyn yn cynnig ymrwymo i gontract gyda Chwaraeon Cymru yn unol â'r gofynion yn y tendr hwn ac ar gyfer y costau a'r taliadau sydd wedi'u cynnwys yn eich ymateb tendro.

8.8 Mae unrhyw a phob mater, boed yn dechnegol, yn weithredol, yn fasnachol neu'n gytundebol, lle nad yw eich ymateb i'r tendr yn cydymffurfio, naill ai'n llawn neu'n rhannol, â gofynion y tendr hwn, wedi'u diffinio'n glir mewn dogfen o dan y pennawd 'Cymwysterau Tendro' a'i chyflwyno fel rhan o'ch ymateb tendro.

# 9. Treuliau a Cholledion yn y Tendr

9.1 Rhaid i dendrwyr ysgwyddo'r holl gostau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno eu hymateb i'r tendr ac unrhyw gostau pellach a achosir cyn dyfarnu'r contract.

9.2 Ni fydd Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am dreuliau na cholledion a all gael eu hachosi gan dendrwr wrth baratoi a chyflwyno ei ymateb i'r tendr ac fel arall wrth iddo gymryd rhan yn y broses gaffael, heb ystyried y dull o gynnal y broses dendro neu'r canlyniad.

# 10. Prisiau

10.1 Ystyrir bod y prisiau a nodir yn ymateb y tendr yn werth llawn cynhwysol ar gyfer darparu'r gofyniad fel y'i disgrifir yn y Fanyleb (Rhan 14), gan gynnwys yr holl gostau a threuliau, y risgiau a'r rhwymedigaethau a nodir yn y Gwahoddiad i Dendro neu a awgrymir ynddo.

10.2 Rhaid nodi'r holl brisiau mewn punnoedd sterling (£) heb gynnwys Treth Ar Werth (TAW).

# 11. Telerau Talu

11.1 Yn unol â Deddf Caffael 2023, gwneir taliad o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb ddilys, gan ddyfynnu Gorchymyn Prynu dilys, gydag anfonebau i'w cyflwyno yn unol â'r taliad a drefnwyd a gytunwyd cyn neu ar adeg dyfarnu'r contract.

11.2 Er mwyn i anfoneb gael ei hystyried yn ddilys ac yn dderbyniol i'w thalu, rhaid ei hanfon yn electronig (h.y. ar e-bost) a rhaid iddi gynnwys y wybodaeth ganlynol o leiaf:

- Enw'r cyflenwr.
- Rhif archeb brynu (lle mae ar gael / yn hysbys).
- Disgrifiad o'r nwyddau, y gwasanaethau a / neu'r gwaith a gyflenwir i Chwaraeon Cymru.
- Y swm y gofynnir amdano.
- Cyfeirnod / rhif anfoneb unigryw.

11.3 Rhaid cyflwyno pob anfoneb i finance@sport.wales

11.4 Os ystyrir bod anfoneb yn annilys a / neu os oes anghydfod ynghylch y swm sy'n daladwy, hysbysir y Cyflenwr cyn gynted ag y bo'n ymarferol a bydd y telerau talu 30 diwrnod yn cael eu gohirio nes bod yr holl ymholiadau wedi'u datrys.

# 12. *Cyfrinachedd a Thryloywder*

12.1 Bydd y tendrwr (os yw ei gyflwyniad yn cael ei dderbyn ai peidio) a phob derbynnydd arall ar y ddogfen Gwahoddiad i Dendro (os yw'n cyflwyno ymateb tendr ai peidio) yn trin manylion y ddogfen hon yn breifat ac yn gyfrinachol.

12.2 Bydd unrhyw gyflwyniad a dderbynnir mewn ymateb i'r Gwahoddiad i Dendro hwn yn cael ei drin yn yr un modd gan Chwaraeon Cymru, oni bai ei fod yn derbyn cais yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

12.3 Rhaid i dendrwyr nodi, yn unol â rhwymedigaethau tryloywder cyffredinol a rhwymedigaethau cyfraith caffael o dan Ddeddf Caffael 2023, bod Chwaraeon Cymru yn cyhoeddi manylion ei brosesau caffael a'i gontractau a ddyfarnwyd yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gwerth y contract, pwy yw'r cyflenwr llwyddiannus, cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau talu a pherfformiad y contract. Gall cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn olygu bod Chwaraeon Cymru yn cymryd camau heb ymgynghori â chyflenwyr.

# 13. *Diogelwch*

13.1 Rhaid i'r Cyflenwr llwyddiannus gadw at rwymedigaethau "Prosesydd Data" fel y'u nodir yn Neddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018) ac Erthygl 28 GDPR 679/2016 yr UE. Yn unol â Phennod 2 Deddf Diogelu Data 2018, mae'r Cyflenwr yn gyfrifol am

sicrhau bod yr holl ddata personol a brosesir wrth ddarparu gwasanaethau, nwyddau neu waith o dan y cytundeb hwn yn cael eu trin yn unol â'r safonau a nodir ym Mhennod IV.

# 14. Yr Iaith Gymraeg

14.1 Fel corff sector cyhoeddus, mae gan Chwaraeon Cymru ddyletswydd i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Llywodraeth Cymru.

14.2 Bydd angen i'r cyflenwyr llwyddiannus sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir drwy'r contract hwn yn cydymffurfio ag anghenion iaith Gymraeg a chynhwysiant Chwaraeon Cymru.

14.3 Bydd y gofynion iaith Gymraeg, cynhwysiant a hygyrchedd sy'n cyd-fynd â'r caffael hwn yn cael eu cadarnhau ym mhob cais yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, bydd y themâu a'r gofynion cyffredin sy'n berthnasol i bob cais yn ôl y gofyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:

- Gwerthfawrogiad, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o safonau'r Gymraeg a diwylliant yr iaith.
- Darparu cyfleoedd i gyfranogwyr ymchwil ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Darparu cyfleoedd cynhwysol i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau sy'n cael eu tanwasanaethu a / neu amrywiol.
- Cyhoeddi cyfathrebu dwyieithog Cymraeg / Saesneg i gyfranogwyr ymchwil posibl (Chwaraeon Cymru i ddarparu copi wedi'i gyfieithu i'w ddefnyddio).
- Dealltwriaeth a blaengaredd i sicrhau bod rhaid i ddarpariaeth yn ôl y galw gynnwys digon o amser i ganiatáu ar gyfer cyfieithu i'r Gymraeg (gyda gofynion Cymraeg penodol i'w cadarnhau ym mhob achos o alw).
- Parhau i gadw at safonau'r Gymraeg, cynhwysiant a hygyrchedd.

14.4 Cyfeirir ymhellach at ofynion dwyieithog Chwaraeon Cymru yn Rhan 14 (Manyleb) isod.

14.5 Am fanylion pellach ynghylch gofynion a chyfrifoldebau'r iaith Gymraeg, edrychwch ar: https://www.llyw.cymru/y-gymraeg.

# 15. Is-Gontractwyr a Chonsortiwm

15.1 Lle cynigir trefniant consortiwm neu is-gontractio, rhaid rhoi'r holl wybodaeth y gofynnir amdani am gwmni'r tendrwr mewn perthynas â'r prif gontractwr neu arweinydd y consortiwm arfaethedig. Rhaid darparu gwybodaeth berthnasol hefyd mewn perthynas ag aelodau'r consortiwm neu is-gontractwyr a fydd yn chwarae rhan sylweddol wrth gyflawni'r gofyniad. At ddibenion y caffael hwn, rôl sylweddol yw lle cyfeirir at neu lle dibynnir ar sefyllfa economaidd ac ariannol a

gallu technegol neu broffesiynol aelod y consortiwm neu'r is-gontractwr o fewn ymateb y tendrwr.

15.2 Os gofynnir iddynt wneud hynny gan Chwaraeon Cymru, bydd gofyn i dendrwyr ymrwymo i drefniant cyfreithiol gydag aelodau eraill o gonsortiwm neu gydag unrhyw bartïon y dibynnir arnynt er mwyn bodloni'r amodau cyfranogiad sy'n ymwneud â'r caffael hwn (yn unol ag adran 72 o Ddeddf Caffael 2023). Ystyrir bod derbyn y cais hwn yn ofyniad gorfodol a gall methu â'i dderbyn arwain at eithrio'r tendrwr o'r caffael, yn ôl disgresiwn llwyr Chwaraeon Cymru.

15.3 Os nad oes gofyn i'r cyflenwr llwyddiannus ymrwymo i drefniant cyfreithiol gydag aelodau eraill o gonsortiwm neu gydag unrhyw bartïon y dibynnir arnynt er mwyn bodloni'r amodau cyfranogiad sy'n ymwneud â'r caffael hwn, mae'n ofynnol i'r prif gontractwr (y prif gyflenwr) gymryd y rôl arweiniol ac ymrwymo i'r cytundeb fframwaith gyda Chwaraeon Cymru ar ei ran ei hun ac aelodau eraill y consortiwm.

# *16. Gwrthdaro Buddiannau*

16.1 Mae'r tendrwyr yn gyfrifol am sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ymddangosiadol (yn unol ag ystyr adran 81 o Ddeddf Caffael 2023) yn bodoli rhyngddynt hwy eu hunain a Chwaraeon Cymru. Yn unol â'r Ddeddf Caffael, mae "buddiant" yn cynnwys buddiant personol, proffesiynol neu ariannol a gall fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

16.2 Mae'n ofynnol i'r tendrwyr ddatgan a oes unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ymddangosiadol yn bodoli fel rhan o'u hymateb i'r tendr a rhaid iddynt hysbysu Chwaraeon Cymru ar unwaith os bydd y wybodaeth a ddarparwyd yn newid ar unrhyw adeg yn ystod y broses gaffael.

16.3 Os bydd unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ymddangosiadol, bydd Chwaraeon Cymru, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, yn penderfynu ar y camau gweithredu priodol. Mae Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl i wneud y canlynol:

- Gwahardd unrhyw dendrwr sy'n methu â hysbysu Chwaraeon Cymru am wrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ymddangosiadol, neu lle mae gwrthdaro buddiannau gwirioneddol yn bodoli.

- Gofyn am ragor o wybodaeth gan unrhyw dendrwr a gofyn i unrhyw dendrwr gymryd camau rhesymol i liniaru gwrthdaro buddiannau. Gall methu â gwneud hynny arwain at y tendrwr yn cael ei eithrio rhag cymryd rhan yn y broses gaffael, neu rhag symud ymlaen fel rhan ohoni.

16.4 Mae Chwaraeon Cymru yn annog y tendrwyr i gysylltu drwy swyddogaeth cwestiynau ac atebion GwerthwchiGymru cyn gynted â phosibl os oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch gwrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ymddangosiadol.

16.5 Mae Chwaraeon Cymru yn cadarnhau, cyn cyhoeddi'r Hysbysiad Tendr sy'n gysylltiedig â'r caffael hwn, fod asesiad gwrthdaro wedi'i baratoi yn unol â Deddf Caffael 2023.

# 17. Manyleb

## Cyflwyniad

17.1 Yn benodol, o ran darparu fframwaith ymgynghori (dirnadaeth, monitro a gwerthuso), mae Chwaraeon Cymru yn chwilio am ymgynghorwyr i ymgymryd â'r **cyfrifoldebau allweddol** canlynol ar draws y ddau Lot:

1. **Cofnodi a dadansoddi** straeon, astudiaethau achos, a data meintiol ac ansoddol o waith ar draws y sector a hwyluso rhannu'r wybodaeth hon mewn amser real i arddangos y gwaith sy'n cael ei wneud a'i effaith. Rhaid rhannu a dadansoddi data yn ddibynadwy ac yn fanwl gywir er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyflawn a chynhwysfawr.
2. **Cydweithredu** â Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid i ddylunio cynigion a methodolegau ymchwil priodol, a gyda chontractwyr eraill, gan feithrin synergedd rhwng ymarferion ymchwil a meithrin amgylchedd o wybodaeth ac arbenigedd a rennir.
3. **Dysgu** drwy greu cyfleoedd dysgu parhaus i'r sector ehangach er budd eraill y tu hwnt i Chwaraeon Cymru.
4. **Rhannu** drwy gyflwyno sesiynau adborth rhyngweithiol a diddorol i Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid, gan hwyluso dealltwriaeth, gwneud penderfyniadau strategol, a thwf o fewn y sector.

17.2 Ar draws yr holl gyfrifoldebau a nodir uchod, mae Chwaraeon Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgynghorwyr gynghori ar a / neu gyflwyno ystod o **fethodolegau ymchwil** ar gyfer y Lot(iau) y dyfarnwyd lle iddynt ynddynt. Gallai cylch gwaith y Lotiau gynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i, y gweithgarwch canlynol:

- Lot 1 – Ymchwil meintiol

  **17.2.1. Cefnogaeth gyda dylunio ymchwil a strategaeth data**, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, datblygu cwestiynau ymchwil, dewis dulliau meintiol priodol [e.e., Arolygon, Arsylwadol ac ati], cefnogi dulliau samplu, a hwyluso ansawdd data o ddechrau'r prosiect.

  **17.2.2. Dadansoddi a modelu ystadegol,** gan weithio gyda setiau data newydd neu bresennol, glanhau a dadansoddi data, ymgymryd â

dadansoddiad disgrifiadol, adeiladu modelau esboniadol a rhagfynegol, archwilio perthnasoedd ac ati.

17.2.3. **Cynhyrchu dirnadaeth a chefnogi gwneud penderfyniadau**, gan gynnwys trosi canlyniadau yn wybodaeth glir, y gellir gweithredu yn ei chylch; mesur effaith a chyfaddawdau; rhedeg senarios fel sail i benderfyniadau strategol, polisi neu weithredol.

17.2.4. **Dosbarthu canfyddiadau cymhleth** drwy ddefnyddio dulliau sy'n briodol ar gyfer cynulleidfaoedd annhechnegol, fel platfformau delweddu data [e.e., Power Bi, Tableau, Python ac ati], ac adeiladu capasiti meintiol mewnol drwy arweiniad a hyfforddiant.

17.2.5. **Gwerthuso a Dysgu** drwy werthuso'n feirniadol y dulliau a'r technegau a ddefnyddiwyd; asesu'r hyn a weithiodd yn dda a'r hyn na weithiodd; cofnodi cyfyngiadau a gwersi a ddysgwyd; gwneud argymhellion clir i wella dylunio, dadansoddi a chyflenwi gwaith tebyg yn y dyfodol.

- Lot 2 – Ymchwil ansoddol:
    - **Cefnogaeth dylunio ymchwil** drwy gynorthwyo Chwaraeon Cymru gyda dylunio ymchwil ehangach, fel creu cwestiynau ymchwil, nodau a chynorthwyo gyda dewis methodoleg ansoddol briodol i gyflawni'r pwrpas a'r amcanion.
    - **Arbenigedd mewn ffurfiau traddodiadol ar ddulliau casglu data ansoddol;** disgwylir y gellir cynnal ffurfiau traddodiadol ar ymchwil ansoddol. Byddai hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, cyfweliadau manwl, grwpiau ffocws, astudiaethau ethnograffig a phrofion defnyddioldeb.
    - **Dulliau casglu data arloesol a chreadigol** y gall y darparwr eu hargymell yn lle dulliau 'traddodiadol' yn y maes hwn. Mae Chwaraeon Cymru yn agored i ffyrdd newydd ac arloesol o gynnal ymchwil ansoddol, e.e. dadansoddi data gyda chymorth AI.
    - **Wrth gynnal dadansoddiad data trylwyr,** disgwylir y gall yr ymgeiswyr llwyddiannus ddangos dulliau effeithiol a chadarn o ddadansoddi data ansoddol manwl y gellir eu trosi'n ganfyddiadau pendant.

Gellid cynnwys y gweithgarwch canlynol ar draws y ddau Lot:

- **Gwerthusiadau** gan gynnwys gwerthusiadau rhaglenni i asesu effeithiolrwydd a nodi meysydd i'w gwella, ac asesiadau effaith i fesur effeithiau ehangach mentrau chwaraeon yng Nghymru.

- **Ymgysylltu â rhanddeiliaid** gan gynnwys ymgysylltu a gweithio gyda rhanddeiliaid ledled Cymru ar wahanol lefelau, gweithredu strategaethau i gynnwys cymunedau i sicrhau bod pob safbwynt yn cael ei glywed a'i ystyried e.e., Rheoli newid, Damcaniaeth Newid

- **Cefnogaeth Ymarferol / Seiliedig ar adnoddau** fel cynnal casglu data a chynnal dadansoddiad data mewn gwahanol adrannau o'r broses ymchwil.

17.3 Bydd y gofynion unigol, y fanyleb a'r gyllideb a neilltuir ar gyfer pob pecyn gwaith cais yn ôl y gofyn sy'n cael ei osod yn ystod tymor y fframwaith yn amrywio ac yn dibynnu ar flaenoriaethau a gweithgarwch parhaus Chwaraeon Cymru a byddant yn cael eu disgrifio a'u diffinio'n llawn ym mhob achos.

17.4 Gallai'r themâu / gofynion cyffredin sy'n debygol (ond nid yn bendant) o fod yn gyson o fewn y rhan fwyaf o geisiadau yn ôl y gofyn gynnwys, ond ni fyddant yn gyfyngedig i, y canlynol:

- Monitro a gwerthuso rhaglenni
- Ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid
- Adolygiadau llenyddiaeth
- Prosiectau ymchwil

17.5 Mae'r rhanddeiliaid / defnyddwyr terfynol allweddol tebygol sy'n gysylltiedig â'r gofyniad yn cynnwys y canlynol:

- Tîm Strategaeth y System Chwaraeon, gan gynnwys Sylfeini a Chyfranogiad, Hyfforddi, Llwybrau a Pherfformiad
- Tîm Pobl, Llywodraethu a Moeseg
- Tîm Datblygu Gwasanaeth a Phartneriaid; gan gynnwys Addysg ac Iechyd
- Tîm Dirnadaeth, Polisi a Materion Cyhoeddus

### *Y Gwasanaethau*

17.6 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd hawliau eiddo deallusol a hawliau a thrwyddedau cysylltiedig eraill sy'n gynhenid o fewn unrhyw / pob elfen i'w chyflawni a gwblheir ar ran Chwaraeon Cymru o dan y fframwaith yn cael eu trosglwyddo i Chwaraeon Cymru ar ôl eu cyflwyno.

17.7 Bydd yr holl eiddo deallusol, methodoleg, gwybodaeth dechnegol a gwybodaeth berchnogol sydd wedi'u cynnwys o fewn deunyddiau adnoddau a chefndir a ddefnyddir i baratoi unrhyw / pob adroddiad elfen i'w chyflawni yn parhau i fod yn eiddo i'r perchennog gwreiddiol.

17.8 Gall darparu gweithgarwch ymgynghori gynnwys cyfweliadau â thrydydd partïon allanol, yn dibynnu ar y gofyniad penodol ym mhob achos. Bydd y gofyniad am gyfweliadau yn cael ei gadarnhau ymlaen llaw gan Chwaraeon Cymru ym mhob cais yn ôl y gofyn.

17.9 Bydd lleoliadau cyflawni penodol a gofynion teithio'n cael eu cadarnhau ym mhob cais yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, fel arwydd, mae'n debyg y bydd angen cyflawni ledled Cymru, gan fod prosiectau ymchwil blaenorol wedi cynnwys teithio i Ogledd, Gorllewin a De Cymru. Gall rhai gofynion gael eu cyflawni o bell, heb yr angen am deithio (eto, i'w gadarnhau ym mhob cais yn ôl y gofyn).

17.10 Mae'r baich gwaith dangosol yn cynnwys rhwng 8 a 16 o brosiectau y flwyddyn, gyda chyfanswm gwariant o £100k, ar draws y ddau Lot.

### *Safonau*

17.11 Byddai'n ddymunol i'r cyflenwyr llwyddiannus fod wedi cyflawni achrediad Hanfodion Seibr erbyn adeg dyfarnu'r fframwaith.

17.12 Ystyrir aelodaeth o'r Gymdeithas Ymchwil Marchnad yn ofyniad dymunol ar gyfer y cyflenwyr llwyddiannus (nid yn orfodol).

17.13 Byddai'n ddymunol i'r cyflenwyr llwyddiannus fod â pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth o fewn eu sefydliad.

17.14 Mae cydnabod, gwerthfawrogi a deall safonau'r iaith Gymraeg yn ofyniad dymunol ar gyfer y cyflenwyr llwyddiannus.

17.15 Mae'n ofynnol i'r cyflenwyr llwyddiannus gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol (gan gynnwys, heb gyfyngiad, Deddf Diogelu Data 2018, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015) yn eu trafodaethau â Chwaraeon Cymru.

### *Cyfrifoldebau Chwaraeon Cymru*

17.16 Bydd Chwaraeon Cymru yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gyfieithu cynnwys Saesneg i gopi Cymraeg i'w ddefnyddio.

### *Cadw Cofnodion ac Adrodd*

17.17 Bydd gofynion adrodd penodol, gan gynnwys rheoleidd-dra ac adborth ar adrodd, yn cael eu cadarnhau ym mhob cais yn ôl y gofyn.

### *Llywodraethu*

17.18 Y bwriad yw dyfarnu safle ar y fframwaith i hyd at 12 cyflenwr ar draws dau Lot gwahanol.

17.19 Disgrifir y Lotiau yn fanylach uchod (Rhan 3), ond fel trosolwg, dyma deitlau pob Lot:

- **Lot 1:** Ymchwil Meintiol (hyd at 3 chyflenwr).
- **Lot 2:** Ymchwil Ansoddol (hyd at 9 cyflenwr).

17.20 Bydd pob gweithgaredd sy'n ofynnol gan Chwaraeon Cymru yn digwydd drwy gais yn ôl y gofyn drwy'r fframwaith fel pecyn gwaith unigol.

17.21 Ar gyfer **Lot 1:** Ymchwil Meintiol, bydd hyd at y 3 thendrwr gyda'r sgôr uchaf ac sy'n cydymffurfio, a bennir yn dilyn gwerthuso'r holl gyflwyniadau, yn cael eu penodi'n gyflenwyr y fframwaith.

17.22 Ar gyfer **Lot 2:** Ymchwil Ansoddol, bydd hyd at y 9 tendrwr gyda'r sgôr uchaf ac sy'n cydymffurfio, a bennir yn dilyn gwerthuso'r holl gyflwyniadau, yn cael eu penodi'n gyflenwyr y fframwaith.

17.23 Bydd gan Chwaraeon Cymru hawl i weithgarwch ceisiadau yn ôl y gofyn drwy'r fframwaith hyd at drothwy ar gyfer dyfarnu uniongyrchol. Gellir dyfarnu unrhyw beth o dan £10,000 yn uniongyrchol; cynigir unrhyw beth dros £10,000 i ymgynghorwyr drwy Ddatganiad o Ddiddordeb.

### *Ansawdd a Rheoli Perfformiad*

17.24 Rhaid gwirio ansawdd pob elfen i'w chyflawni a gyflwynir i Chwaraeon Cymru cyn ei chyflwyno.

17.25 Bydd ansawdd yn cael ei reoli drwy gydol tymor y fframwaith, gyda gofynion ansawdd penodol i'w cadarnhau ym mhob cais yn ôl y gofyn.

### *Cynllunio Mynediad a Gadael*

17.26 Bydd pob gofyniad cais yn ôl y gofyn unigol yn destun cyfarfod cychwynnol rhwng Chwaraeon Cymru a'r cyflenwr fframwaith a benodir i drafod y gofyniad penodol a'r elfennau disgwyliedig i'w cyflawni yn fanwl.

17.27 Ar ddiwedd y cytundeb fframwaith, bydd gofyn i'r cyflenwyr sy'n gadael ddychwelyd yr holl ddogfennau a / neu ddata perthnasol nad oes eu hangen mwyach at ddibenion cyfreithiol neu reoleiddiol i Chwaraeon Cymru, a rhoi sicrwydd bod yr holl ddogfennau a / neu ddata eraill wedi'u dinistrio.

### *Hyd y Contract*

17.28 Os caiff ei ddyfarnu, disgwylir i'r cytundeb fframwaith ddechrau ar 4ydd Mai 2026.

17.29 Ac eithrio terfynu cynnar, bydd y cytundeb fframwaith yn rhedeg am gyfnod cychwynnol o 24 mis a bydd yn dod i ben ar 1af Mai 2028.

17.30 Yn ôl disgresiwn llwyr Chwaraeon Cymru, gellir ymestyn y cytundeb fframwaith am 24 mis pellach, gan roi dyddiad dod i ben posibl hwyraf o 6ed Mai 2030.

# 18. Y Broses Asesu

### *Trosolwg o Broses Asesu'r Gwahoddiad i Dendro*

18.1 Mae'r Broses Asesu'n cynnwys tair rhan fel y manylir isod:

1. Holiadur Cymhwyso
2. Meini Prawf Dyfarnu Ansawdd
3. Meini Prawf Dyfarnu Masnachol

18.2 Mae'n ofynnol i dendrwyr ymateb i bob rhan yn llawn er mwyn i'w cyflwyniad gael ei ystyried fel un sy'n cydymffurfio ac yn gymwys i'w gynnwys yn y broses werthuso derfynol.

18.3 Mae'n ofynnol i dendrwyr ddefnyddio'r templedi ymateb a ddarperir fel rhan o'r pecyn tendro.

### *Holiadur Cymhwyso*

18.4 Cyfeiriwch at y templed ymateb Holiadur Cymhwyso a gyhoeddwyd fel rhan o'r casgliad o ddogfennau ymateb y tendr, *'Caffael fframwaith IME_Holiadur Cymhwyso'.*

18.5 Mae'r Holiadur Cymhwyso yn deillio o Holiadur Safon Caffael Cymru (WPSQ).

18.6 Mae'n ofynnol i dendrwyr ymateb i'r holl gwestiynau rhagarweiniol yn yr Holiadur Cymhwyso.

18.7 Fel rhan o'u hymateb i'r Holiadur Cymhwyso, rhaid i dendrwyr nodi pa Lot(iau) maent yn cynnig amdanynt. Gall Chwaraeon Cymru benderfynu nad yw tendrwyr sy'n methu â nodi pa Lot(iau) maent yn cynnig amdanynt, neu nad ydynt yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau ynghylch sut i gynnig mewn perthynas â'r Lotiau, yn cydymffurfio ac felly byddant yn cael eu heithrio o'r broses gaffael.

18.8 Mae'n ofynnol i dendrwyr fod wedi cofrestru ar y Platfform Digidol Canolog a rhaid iddynt ddarparu gwybodaeth graidd mewn perthynas â'u sefydliad eu hunain a'u personau cysylltiedig, yn ogystal â gwybodaeth am unrhyw bersonau cysylltiedig neu is-gontractwyr y maent yn dibynnu arnynt i fodloni'r amodau cyfranogiad. Yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, gall Chwaraeon Cymru ddiystyru unrhyw ymateb i'r tendr lle mae'r tendrwr yn methu â darparu'r wybodaeth berthnasol o'r Platfform Digidol Canolog yn y fformat y gofynnwyd amdano.

18.9 Ar ôl cynnal gwiriadau cydymffurfio cychwynnol, bydd Chwaraeon Cymru yn cadarnhau nad yw'r cyflenwr nac unrhyw bersonau cysylltiedig o fewn ei grŵp corfforaethol, personau cysylltiedig y dibynnir arnynt i fodloni'r amodau cyfranogiad, na'r is-gontractwyr arfaethedig wedi'u rhestru ar restr waharddedig Swyddfa'r Cabinet. Os bydd unrhyw endidau o'r fath wedi'u rhestru ar y rhestr waharddedig, bydd Chwaraeon Cymru yn ystyried a ddylid gwahardd y tendrwr rhag cymryd rhan yn y caffael yn unol â'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Caffael 2023.

18.10 Bydd Chwaraeon Cymru hefyd yn ystyried, mewn perthynas â phob tendrwr a gyflwynodd ymateb, a yw'r tendrwr neu unrhyw bersonau cysylltiedig o fewn ei grŵp corfforaethol, personau cysylltiedig y dibynnir arnynt i fodloni'r amodau cyfranogiad, neu is-gontractwyr arfaethedig, yn gyflenwyr wedi'u heithrio neu y gellir eu heithrio a bydd yn ystyried a ddylid diystyru'r tendr a gyflwynwyd yn unol â'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Caffael 2023. Os yw'r tendrwr yn gyflenwr wedi'i eithrio neu y gellir ei eithrio drwy rinwedd person cysylltiedig neu is-gontractwr arfaethedig yn unig, bydd Chwaraeon Cymru yn hysbysu'r tendrwr o'i fwriad i ddiystyru ei ymateb i'r tendr ac yn rhoi cyfle rhesymol i'r tendrwr newid y person cysylltiedig neu'r is-gontractwr. Os, o ganlyniad i'r broses hon, bydd Chwaraeon Cymru yn diystyru ymateb i'r tendr gan gyflenwr sydd wedi'i eithrio neu y gellir ei eithrio, neu'n ymwybodol bod person cysylltiedig neu is-gontractwr wedi cael ei newid, bydd yn rhoi gwybod am y ffaith hon o fewn 30 diwrnod i'w benderfyniad i'r Uned Adolygu Caffael (PRU).

18.11 Gall yr Holiadur Cymhwyso gynnwys nifer o amodau cyfranogiad sy'n ymwneud â'r gofynion isafswm, gorfodol y mae'n rhaid i dendrwr eu bodloni i gael ei ystyried yn addas ar gyfer ystyriaeth; oni bai y nodir yn glir fel arall, lle bynnag y nodir cwestiwn o fewn yr Holiadur Cymhwyso fel Llwyddo / Methu, bydd ymateb o 'Na' yn cael ei ystyried fel methu â bodloni amodau cyfranogiad Chwaraeon Cymru a bydd yn gwneud ymateb y tendrwr yn annilys. Bydd yr ymateb yn cael ei ddiystyru ac ni fydd yn cael ei werthuso ymhellach.

18.12 Bydd cyflwyniadau sy'n bodloni holl feini prawf yr Holiadur Cymhwyso, gan gynnwys yr amodau cyfranogiad, yn symud ymlaen i gam nesaf y broses werthuso, sef y gwerthusiad Ansawdd a Masnachol. Mae manylion y meini prawf dyfarnu i'w gweld isod.

### *Asesiad Ansawdd a Masnachol*

18.13 Bydd y cytundeb (os caiff ei ddyfarnu) yn mynd i'r tendrwr sy'n cyflwyno'r Tendr Mwyaf Manteisiol (MAT), wedi'i asesu o ran gwerth am arian yn seiliedig ar y meini prawf dyfarnu y manylir arnynt isod.

| Cwestiwn | Pwysoli |
|---|---|
| Ansawdd (Darparu Gwasanaeth a Phrofiad) | 70% |
| Masnachol (Prisio a Ffioedd) | 30% |
| Sgôr Ansawdd Cyfanswm Sydd Ar Gael: | **100%** |

18.14 Mae gan Feini Prawf Dyfarnu y Gwahoddiad i Dendro sgôr uchafswm o 100%.

### *Asesiad Ansawdd*

18.15 Mae'r asesiad Ansawdd yn cyfrif am 70% o'r 100% sydd ar gael. Bydd yr ymatebion Ansawdd yn cael eu hasesu gan banel gwerthuso yn erbyn y matrics a nodir isod:

| Gwerth y Sgôr | Disgrifiad o'r Sgôr |
|---|---|
| Sgôr o 0 lle mae | Dim ymateb neu ymateb nad yw'n berthnasol i'r cwestiwn neu'r cwestiwn heb ei ateb. |
| Sgôr o 1 lle mae | Ymateb Gwael - Mae'r ateb wedi mynd i'r afael â'r cwestiwn yn rhannol ond mae diffyg tystiolaeth o'r gofynion a geisir. Diffyg |

| | |
|---|---|
| | dealltwriaeth wirioneddol o'r gofyniad neu dystiolaeth o'r gallu i gyflawni. |
| Sgôr o 2 lle mae | Mae'r ymateb yn mynd i'r afael â'r cwestiwn ond yn darparu manylion cyfyngedig neu dystiolaeth wan. Mae rhywfaint o ddealltwriaeth o'r gofyniad, ond dim ond rhannol yw'r hyder yn y gallu i gyflawni'n llawn. Mae'r ymateb yn well na gwael ond nid yw'n bodloni safon dderbyniol. |
| Sgôr o 3 lle mae | Ymateb Derbyniol - Mae'r ymateb yn cydymffurfio â'r cwestiwn ac yn darparu tystiolaeth y gofynnwyd amdani. |
| Sgôr o 4 lle mae | Mae'r ymateb yn mynd i'r afael â'r cwestiwn yn uniongyrchol gyda thystiolaeth berthnasol a digonol i gefnogi'r ateb. Mae'r tendrwr yn dangos y gall fodloni'r gofyniad ac, o bosibl, rhagori arno mewn rhai meysydd, er nad i'r lefel gynhwysfawr neu eithriadol sy'n ofynnol ar gyfer sgôr o 5. |
| Sgôr o 5 lle mae | Ymateb Rhagorol – Mae'n mynd i'r afael â'r cwestiwn yn uniongyrchol gyda thystiolaeth glir i gefnogi atebion. Mae'r tendrwr yn dangos y gall fodloni'r gofyniad neu ragori arno. |

18.16 Bydd sgôr pob cwestiwn yn cael ei luosi gyda'r pwysau cyfatebol i ddarparu sgôr wedi'i phwysoli. Wedyn bydd y sgôr wedi'i phwysoli fel cyfanswm yn cael ei rhannu gyda'r sgôr ansawdd cyffredinol.

18.17 Ar gyfer yr asesiad Ansawdd, mae'n ofynnol i dendrwyr gwblhau a dychwelyd templed ymateb Ansawdd. Cwblhewch y templed drwy ymateb i bob un o'r cwestiynau Ansawdd yn unol â'r canllawiau a amlinellir yn y ddogfen dempled ac yn y ddogfen Gwahoddiad i Dendro.

18.18 Darperir templedi ymateb Ansawdd fel atodiadau ategol o'r enw *'GID IME Lot 1_Templed Ymateb Ansawdd'* a *'GID IME Lot 2_Templed Ymateb Ansawdd'* h.y. un ar gyfer pob Lot.

### *Asesiad Masnachol*

18.19 Mae'r asesiad Masnachol yn cyfrif am y 30% sy'n weddill o'r 100% sydd ar gael.

18.20 Bydd yr elfen Fasnachol yn cyfrif am 30% o'r sgôr gyfan. Bydd y cynnig gyda'r pris isaf a dderbynnir yn derbyn y sgôr uchafswm am bris yn awtomatig. Bydd pob cynnig arall yn cael ei sgorio'n gymesur yn erbyn y cynnig isaf, gan sicrhau asesiad teg a chyson o werth am arian.

18.21 Ar gyfer yr asesiad Masnachol, mae'n ofynnol i dendrwyr gwblhau a dychwelyd templed ymateb Masnachol drwy fewnosod y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn unol â chanllawiau'r llyfr gwaith. Darperir templedi ymateb Masnachol fel atodiadau ategol o'r enw *'GID IME Lot 1_Templed Ymateb Masnachol'* a *'GID IME Lot 2_Templed Ymateb Masnachol'* 'h.y. un ar gyfer pob Lot.

18.22 Gall Chwaraeon Cymru ddiystyru ymateb i'r tendr os yw'r tendr yn cynnig ymateb masnachol (pris) y mae Chwaraeon Cymru yn ei ystyried fel pris anarferol o isel ar gyfer cyflawni'r contract. Pan mae Chwaraeon Cymru o'r farn bod pris a gynigir gan dendrwr yn anarferol o isel, bydd y tendrwr yn cael gwybod a rhoddir cyfle rhesymol iddo ddangos y bydd yn gallu cyflawni'r

contract am y pris a gynigiwyd. Dim ond os na all y tendrwr ddangos yn foddhaol, er boddhad Chwaraeon Cymru, y bydd yn gallu cyflawni'r contract am y pris a gynigiwyd y bydd Chwaraeon Cymru yn diystyru'r ymateb i'r tendr.

## *Meini Prawf Dyfarnu*

18.23 Yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir isod, gall tendrwyr gynnig am un Lot neu'r ddau.

18.24 Er mwyn paratoi cyflwyniad sy'n cydymffurfio, rhaid i dendrwyr ddarparu ymateb sy'n cynnwys y canlynol:

- Ymateb i bob un o'r **Cwestiynau Penodol i Lot** ar gyfer y Lot(iau) maent yn cynnig amdanynt. Er enghraifft, os yw'n cynnig am Lot 1 yn unig, dim ond ateb y Cwestiynau Penodol i Lot 1 sydd angen i dendrwr ei wneud, ond os yw'n cynnig am y ddau Lot, mae angen ymateb i'r Cwestiynau Penodol i Lot 1 a Lot 2.
- Ymateb i'r **Cwestiynau Heb Fod yn Benodol i Lot**. Dim ond unwaith y mae angen ateb y cwestiynau hyn, dim ots faint o Lotiau mae'r tendrwr yn cynnig amdanynt.
- Ymateb **Masnachol**, gan ddarparu cyfraddau dyddiol ar gyfer pob Lot mae tendrwr yn cynnig amdano.

| Cyfeirnod y Cwestiwn | Testun y Cwestiwn | Sgôr Uchafswm | Pwysau'r Cwestiwn |
|---|---|---|---|
| Meini Prawf Ansawdd (Darparu Gwasanaeth a Phrofiad) | | | |
| Cwestiynau Penodol i Lot<br>**Rhaid** i gyflenwyr sy'n tendro am fwy nag un Lot ddarparu cyflwyniad clir ar wahân ar gyfer pob Lot (h.y. dogfen ymateb ar wahân ar gyfer pob Lot), gan ymateb i bob cwestiwn sy'n benodol i'r Lotiau a ddewiswyd.<br><br>**Dim ond y cwestiynau sy'n berthnasol i'r Lot(iau) y mae eu sefydliad yn tendro amdanynt y mae'n rhaid i dendrwyr ymateb iddynt.** | | | |
| Lot 1: Meintiol | | | |
| Lot 1: C1 (a) | Manylwch ar brofiad diweddar eich sefydliad (o fewn y 3 blynedd diwethaf) o ddarparu gwasanaethau sy'n cyfateb neu'n debyg i'r rhai a amlinellir yng ngofyniad Lot 1 (17.2). | 5 | 2 |
| Lot 1: C2 (a) | Gan ymhelaethu ar eich ymateb i C1(a), rhowch fanylion am brofiad blaenorol eich sefydliad o gyflawni;<br>*17.2.2. Dadansoddi a modelu ystadegol,* | 5 | 4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *a*<br>*17.2.4. Dosbarthu canfyddiadau cymhleth*<br><br>(a nodir yn Rhan 17.2) uchod mewn perthynas â gofyniad Lot 1 yn benodol. | | |
| Lot 1<br>C3 (a) | Disgrifiwch yn fanwl ddull arfaethedig eich sefydliad o gyflawni gofyniad Lot 1 yn effeithiol, gan amlinellu'r ffyrdd o weithio gyda Chwaraeon Cymru, ei bartneriaid ac ymgynghorwyr eraill, a manylwch ar ddull cyffredinol eich sefydliad o gyflawni ac adrodd ar ganlyniadau ymchwil. | 5 | 2 |
| Lot 2: Ymchwil Ansoddol | | | |
| Lot 2:<br>C1 (b) | Manylwch ar brofiad diweddar eich sefydliad (o fewn y 3 blynedd diwethaf) o ddarparu gwasanaethau sy'n cyfateb neu'n debyg i'r rhai a amlinellir yng ngofyniad Lot 2. | 5 | 2 |
| Lot 2:<br>C2 (b) | Manylwch ar brofiad eich sefydliad o gyflwyno dulliau casglu data a nodir yn Rhan 17.2 uchod, mewn perthynas â gofyniad Lot 2 yn benodol. | 5 | 2 |
| Lot 2:<br>C3 (b) | Manylwch ar brofiad eich sefydliad o gyflawni dadansoddiad data a nodir yn Rhan 17.2 uchod, mewn perthynas â gofyniad Lot 2 yn benodol. | 5 | 2 |
| Lot 2:<br>C4 (b) | Disgrifiwch yn fanwl ddull arfaethedig eich sefydliad o gyflawni gofyniad Lot 2 yn effeithiol, gan amlinellu'r ffyrdd o weithio gyda Chwaraeon Cymru, ei bartneriaid ac ymgynghorwyr eraill, a manylwch ar ddull cyffredinol eich sefydliad o gyflawni ac adrodd ar ganlyniadau ymchwil. | 5 | 2 |
| Cwestiynau Heb Fod yn Benodol i Lot<br>Dim ots faint o Lotiau mae tendrwyr yn tendro amdanynt (un neu fwy), **dim ond un ymateb** ddylai’r tendrwyr ei ddarparu i'r Cwestiynau Heb Fod yn Benodol i Lot a amlinellir isod (h.y. dim ond unwaith y mae angen i dendrwyr ymateb i'r Cwestiynau Heb Fod yn Benodol i Lot). | | | |
| C5 | Manylwch ar brofiad eich sefydliad o weithio gyda chleientiaid sydd â sail a chyd-destun gweithredu tebyg i Chwaraeon Cymru. | 5 | 1 |
| C6 | Manylwch ar sut mae eich sefydliad yn sicrhau ei fod yn darparu allbwn / elfennau i'w cyflawni o ansawdd, heb wallau ac yn amserol, gan amlinellu'r prosesau, y gweithdrefnau, y systemau a'r adnoddau (ac ati) a ddefnyddir.<br><br>Manylwch ar y camau arfaethedig i liniaru risg a sut byddai Chwaraeon Cymru. | 5 | 2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| C7 | Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y byd chwaraeon. Amlinellwch y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb o fewn eich sefydliad. | 5 | 1 |
| C8 | Dangoswch sut bydd eich sefydliad yn sicrhau cydymffurfiaeth ag Addewid Chwaraeon Cymru (https://www.sport.wales/strategy/ambition-approach) drwy ddarparu gwasanaethau o dan y fframwaith. | 5 | 2 |
| **Meini Prawf Masnachol (Prisio a Ffioedd)** | | | |
| Darparwch gyfradd ddyddiol ymgynghorydd eich sefydliad i'w chymhwyso i ofyniad Chwaraeon Cymru, yn seiliedig ar gytundeb fframwaith 24 mis.<br><br>Darparwch gyfradd un diwrnod i'w chymhwyso i ofynion cais yn ôl y gofyn o dan y fframwaith. Os darperir cyfraddau lluosog neu restr o gyfraddau, bydd cyfartaledd yn cael ei ddefnyddio at ddiben y gwerthusiad. | | 5 | 1 |

### *Dyfarnu*

18.25 Bydd cyfanswm y sgôr Ansawdd a chyfanswm y sgôr Masnachol yn cael eu cyfuno i roi cyfanswm sgôr y tendr. Ystyrir mai'r tendrwyr sy'n cydymffurfio ac sydd â'r sgôr uchaf ar gyfer pob Lot (y 3 sgôr uchaf ar gyfer Lot 1, y 7 sgôr uchaf ar gyfer Lot 2) yw'r cyflenwyr MAT.

18.26 Unwaith y bydd y broses asesu wedi dod i ben, bydd Chwaraeon Cymru yn darparu crynodeb asesu i bob tendrwr a gyflwynodd ymateb i'r tendr wedi'i asesu er mwyn:

- Rhoi gwybod iddynt a ydynt wedi bod yn llwyddiannus o ran dyfarnu'r cytundeb fframwaith iddynt.
- Darparu esboniad o'r asesiad o ymateb y tendrwr yn erbyn y meini prawf dyfarnu perthnasol, yn unol â gofynion Deddf Caffael 2023.
- Lle bo hynny'n wahanol i'r cyflenwyr llwyddiannus, darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r tendr mwyaf manteisiol a gyflwynwyd, gan gynnwys manylion yr asesiad o'r tendr hwn yn erbyn y meini prawf dyfarnu perthnasol ac enw'r cyflenwr.

18.27 Unwaith y bydd y crynodebau asesu wedi'u darparu i bob tendrwr a gyflwynodd dendr wedi'i asesu, bydd Chwaraeon Cymru yn cyhoeddi hysbysiad Contract Dyfarnu ar y Platfform Digidol Canolog (drwy GwerthwchiGymru) ac yn dechrau'r cyfnod segur gorfodol.

18.28 Yn amodol ar gwblhau'r cyfnod segur gorfodol, bydd y caffael yn dod i ben gyda Chwaraeon Cymru yn ymrwymo i'r cytundeb fframwaith gyda'r cyflenwr (cyflenwyr) llwyddiannus ac yn cyhoeddi hysbysiad Manylion y Contract ar y Platfform Digidol Canolog (drwy GwerthwchiGymru) o fewn 30 diwrnod i ddyddiad llofnodi'r cytundeb fframwaith.

# 19. Cyfarwyddyd Pellach

19.1 Rhaid i dendrwyr archwilio'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro, yn ogystal ag unrhyw ddogfennaeth ategol, yn llawn gan fod y rhain yn dynodi pa wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu er mwyn i'w hymateb gael ei ystyried yn gyflawn ac yn cydymffurfio. Gellir gwrthod tendrau anghyflawn neu anghymwys fel rhai nad ydynt yn cydymffurfio, yn ôl disgresiwn llwyr Chwaraeon Cymru.

19.2 Mae'r cyfarwyddiadau hyn wedi cael eu cynllunio i sicrhau bod pob cynnig yn cael ystyriaeth gyfartal a theg. Felly, mae'n bwysig bod tendrwyr yn darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani.

19.3 Rhaid i'r tendrwr sicrhau bod pob is-gontractwr, aelod o'r consortiwm a chynghorydd yn cadw at delerau'r cyfarwyddiadau hyn ac amodau'r tendr.

19.4 Cyfrifoldeb y tendrwr yw sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen yn cael ei chyflwyno a'i bod yn gywir, ac, os oes amheuaeth ynghylch cynnwys y Gwahoddiad i Dendro a / neu'r ddogfennaeth ategol, gofyn am wybodaeth ychwanegol yn ôl yr angen drwy gwestiynau eglurhad ffurfiol.

19.5 Rhaid i dendrwyr sicrhau eu bod yn darllen pob cwestiwn yn ofalus ac yn ymateb yn unol â'r meini prawf isod:

- Lle gofynnir yn benodol am wybodaeth ategol (e.e. CV, polisïau, dogfennau proses ac ati) gellir ei darparu fel atodiad i'ch ymateb. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd hyn yn ychwanegol at y cyfyngiad tudalen uchafswm a amlinellir.
- Ni fydd gwybodaeth ategol nad yw Chwaraeon Cymru wedi gofyn amdani'n benodol (e.e. atodiadau) yn cael ei hystyried na'i gwerthuso fel rhan o'r cyflwyniad.
- Oni bai fod Chwaraeon Cymru yn gofyn yn uniongyrchol am hynny, ni ddylai'r tendrwyr gynnwys dolenni na llwybrau byr i adnoddau allanol (e.e. gwefannau ac ati). Ni fydd y dolenni hyn yn cael eu hagor ac ni fyddant yn cael eu hystyried na'u gwerthuso fel rhan o'r cyflwyniad.
- Rhaid i dendrwyr amlinellu yn eu hymateb unrhyw feysydd lle nad ydynt yn bodloni gofyniad Chwaraeon Cymru yn llawn.
- Rhaid i enw'r ffeil(iau) a gyflwynir gynnwys enw eich sefydliad.
- Ni ddylid darparu unrhyw wybodaeth fasnachol yn yr ymateb Ansawdd.
- Rhaid i dendrwyr ddarparu prisiau fesul eitem ar gyfer yr holl gostau a ragwelir ar gyfer darparu'r gwasanaethau arfaethedig yn unol â'u hymateb.

# 20. Diffyg Cydymffurfio

20.1 Bydd y cyflwyniadau tendr yn cael eu gwerthuso i ddechrau am gyflawnder a chydymffurfiaeth â'r gofynion ymateb gorfodol. Gall methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddiadau ymateb neu ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani wneud y cyflwyniad yn annilys yn gyfan gwbl, yn ôl disgresiwn llwyr Chwaraeon Cymru.

20.2 Os oes diffyg cydymffurfio â'r fanyleb yn ystod cyfnod y contract, os caiff ei ddyfarnu, dilynir y weithdrefn ganlynol:

- Hysbysiad o gŵyn a gofyniad i gydymffurfio.
- Hysbysiad o arferion annerbyniol a / neu ddiffyg cydymffurfio sylweddol â'r fanyleb.
- Mynd yn ôl at amodau'r contract.

# 21. Sefyllfa ac Adnoddau Ariannol

21.1 Mae Chwaraeon Cymru yn dymuno sicrhau bod gan dendrwyr y sefyllfa ariannol a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni eu rhwymedigaethau drwy gydol cyfnod y trefniant caffael. Gall hyn gynnwys (lle bo hynny'n briodol) ystyried lefel ymrwymiadau gwaith presennol y tendrwr a'r effaith bosibl y byddai dyfarnu contract yn ei chael ar adnoddau.

21.2 Wrth benderfynu a ddylid cyflwyno ymateb i'r tendr, dylai tendrwyr hefyd fod yn ymwybodol o'r risgiau o ddod yn rhy ddibynnol ar fusnes Chwaraeon Cymru, neu yn wir busnes unrhyw gwsmer, a'u hystyried. Wrth wneud hynny, dylai tendrwyr ystyried enillion o unrhyw waith arall a wneir ar gyfer Chwaraeon Cymru yn ogystal ag enillion posibl o'r cyfle caffael hwn.

# 22. Rhestr Wirio o Ddogfennau Ymateb i'w Dychwelyd

22.1 Ymatebwch i bob un o'r gofynion a nodir yn Rhan 18 erbyn 13eg Mawrth 2026, gan ddefnyddio'r templedi ymateb a ddarperir gyda'r Gwahoddiad i Dendro hwn.

22.2 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r dogfennau y dylai tendrwyr eu cwblhau a'u dychwelyd.

| Teitl y Ddogfen | Erbyn Pryd |
|---|---|
| Holiadur Cymhwyso wedi'i gwblhau (gan gynnwys Ffurflen y Tendr wedi'i llofnodi).<br>Yr enw yw '*Caffael fframwaith IME_Holiadur Cymhwyso*'. | 13eg Mawrth 2026 |
| Ymateb i'r meini prawf dyfarnu Ansawdd drwy dempled ymateb Ansawdd wedi'i gwblhau ar gyfer pob Lot y cyflwynwyd tendr ar ei gyfer.<br>Yr enw yw '*GID IME Lot 1_Templed Ymateb Ansawdd*' a / neu '*GID IME Lot 2_Templed Ymateb Ansawdd*' | 13eg Mawrth 2026 |
| Templed ymateb Masnachol wedi'i gwblhau ar gyfer pob Lot y cyflwynwyd tendr ar ei gyfer.<br>Yr enw yw '*GID IME Lot 1_Templed Ymateb Masnachol*' a / neu '*GID IME Lot 2_Templed Ymateb Masnachol*' | 13eg Mawrth 2026 |